

**PANEL YR AELODAU O RAN APELIADAU CLUDIANT O'R
CARTREF I'R YSGOL.**

DYDD MAWRTH, 5 MAWRTH 2024

PRESENNOL Cyngorydd E.G. Thomas (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

G. Davies S.L. Davies J.P. Hart

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):

A. John, Cyfreithiwr Cynorthwyol
A. Evans, Rheolwr Gweithrediadau - Cludiant Teithwyr
M. Jacob, Rheolwr Traffig a Diogelwch Ffyrdd
E. M. Jones, Swyddog Mynediad Eithriedig
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell Bwyllgor 1 (Ystafell Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd) - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.20 - 10.25 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

4. I YSTYRIED APÊL GAN YMGEISYDD A.G. YN ERBYN PENDERFYNIAD YR AWDURDOD SEF PEIDIO Â DARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol. Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol mewn perthynas â'r ymgeisydd. Byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd o ran y broses o wneud penderfyniad, ond ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan fod angen sicrhau na fyddai modd adnabod yr ymgeisydd na'i deulu.

Bu'r Panel yn ystyried sylwadau ysgrifenedig yr apelydd ynghylch penderfyniad Panel Adolygu Cam 1 i wrthod rhoi cludiant ysgol am ddim i A.G. i ysgol a oedd o fewn y pellter cerdded statudol o gyfeiriad y cartref, sef 3 milltir, ac felly nid oedd yn bodloni'r meini prawf a amlinellir ym mholisi'r Cyngor ar gyfer darparu cymorth.

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i amgylchiadau unigol yr achos, ynghyd â sylwadau'r swyddogion adrannol.

PENDERFYNWYD fod yr apêl a gyflwynwyd gan A.G. am gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn cael ei chadarnhau.

CHAIR

DATE

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf